

Ymgeisydd	Math yr Ymgeisydd	Math y Drwydded	Amod(au) Ychwanegol yn ogystal â'r amodau safonol*	Gwybodaeth Ychwanegol
1.Landlord	Byw yn nhir mawr y DU a gosod a rheoli ei eiddo ei hun yn unig.	Trwydded Landlord - Unigolyn neu Gwmni, Elusen, Ymddiriedolaeth	Bydd modd penodi person heb drwydded i reoli am hyd at 4 wythnos os bydd yr ymgeisydd ar wyliau/yn absennol a.y.b.	
2. Landlord	Preswlydd tramor sydd berchen ar eiddo yng Nghymru a sydd yn gwneud gweithgareddau rheoli.	Trwydded Landlord - Unigolyn neu Gwmni, Elusen, Ymddiriedolaeth	Mae'n rhaid bod rhywun ar brif dir Prydain yn gweithredu ar ran y landlord, a bydd angen i hwnnw ddal trwydded asiant (gweler Cymal 5 isod) o fewn 8 wythnos o ganiatáu'r drwydded.	Gall yr Asiant fod yn un masnachol neu anfasnachol (e.e. yn aelod o'r teulu neu'n gyfaill).
3. Asiant	Person sy'n gwneud gwaith gosod a/neu reoli ar ran landlordiaid nad ydynt yn perthyn iddo.	Trwydded Asiant - Unigolyn neu Gwmni, Elusen, Ymddiriedolaeth neu Gymdeithas Landlordiaid Eiddo Preswyl	Os yw'r asiant yn trin Arian Cleient (gweler y diffiniad isod), bydd arno angen yswiriant diogelu arian cleient. Bydd angen i bob asiant fod ag Yswiriant Indemnio Proffesiynol a bod yn Aelod o Gynllun lawndal. Os nad yw'r rhain gan ymgeisydd pan wna'r cais, bydd yn rhaid iddo eu cael o fewn 6 wythnos i ganiatáu'r drwydded neu wynebu diddymu'r drwydded.	Nid yw'r amodau'n berthnasol ond os yw asiant yn rheoli mwy na 2 eiddo ar ran landlord nad yw'n perthyn iddo (gweler 5 isod). Os nad yw asiant yn trin arian cleient, bydd yn rhaid iddo lofnodi datganiad yn dweud hynny cyn y caniateir trwydded. Gellir lawrlwytho datganiad o wefan Rhentu Doeth Cymru yma > Cyfeirnod Dogfen Datganiad ANCMP
4. Asiant	Rhywun sy'n gwneud gwaith gosod a/neu reoli ar ran aelodau ei deulu	Trwydded Asiant - Unigolyn neu	Hyd yn oed os yw'r asiant yn trin arian cleient (gweler y diffiniad isod) ar ran aelodau'r teulu, nid oes gofyn iddo fod â chynllun diogelu arian	

	yn unig (ac efallai ei eiddo ei hun)	Gwmni, Elusen, Ymddiriedolaeth neu Gymdeithas Landlordiaid Eiddo Preswyl	cleient, yswiriant indemnio proffesiynol nac aelodaeth ar gynllun iawndal.	
5. Asiant	Rhywun sy'n gofalu am ddau eiddo neu lai ar gyfer un landlord nad yw'n perthyn iddo.	Trwydded Asiant - Unigolyn neu Gwmni, Elusen, Ymddiriedolaeth neu Gymdeithas Landlordiaid Eiddo Preswyl	Bydd yr amodau fel y rhai yn achos 4 uchod, ond dim ond os yw'r landlord a'r asiant yn llofnodi ffurflen Cyfeirnod Dogfen: Datganiad 2P1L1A . Fel arall, bydd yr amodau arferol ar gyfer Asiant nad yw'n perthyn yn berthnasol (fel yn achos 3 uchod).	

Amodau safonol i bob trwydded:

- Os yw'r trwyddedai'n cyflogi pobl gysylltiedig (cyflogeion; pobl sydd ar y gyflogres ac ati) yn y dyfodol, sy'n gwneud unrhyw waith gosod a/neu reoli fel y diffinnir yn y Ddeddf fel rhan o'r contract gwasanaeth, rhaid iddynt gael hyfforddiant addas ymhen 3 mis o:
 - ddechrau yn y swydd neu
 - os ydynt wedi'u cyflogi, ymhen 3 mis o ddyfarnu'r drwydded hon
 Bydd yn rhaid rhoi gwybod i Rentu Doeth Cymru am yr aelod staff newydd a'i hyfforddiant o fewn y 3 mis.
- Mae'n rhaid i drwyddedai gydymffurfio â Chod Ymarfer Landlordiaid ac Asiantau a drwyddedir dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae copi o'r Cod ar-lein ar ein Tudalen Lawrlwythiadau. Mae dwy elfen i'r Cod hwn. Yn bennaf oll, mae'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i landlordiaid ei wneud i fodloni amodau'r drwydded hon. Mae pob gofyniad a nodir fel 'rhaid' eisoes i'w gael mewn deddfwriaeth a dylai'r trwyddedai eisoes fod yn ymwybodol ohonynt yn sgîl yr hyfforddiant a wnaeth i gael y drwydded. Ail elfen y cod yw gwybodaeth am yr hyn y gellir ei wneud i godi safonau uwch y lefel sylfaenol sy'n ofynnol dan y gyfraith. Disgrifir hyn fel "Arfer Gorau" ac fe'i dangosir mewn blychau lliw drwy'r ddogfen hon. Gwneir hyn yn ôl disgrisiwn landlordiaid ac asiantau gosod. Ni fyddai peidio â chyflawni Arfer Gorau'n rheswm i Rhentu Doeth Cymru ddiddymu trwydded.

- Bydd caniatâd i'r trwyddedai ddefnyddio brand Rhentu Doeth Cymru fel landlord trwyddedig. Ond rhaid defnyddio hyn yn unol â'r canllawiau brand bob amser. Gellir gweld copi o ganllawiau'r brand ar-lein ar ein tudalen Lawrlwythiadau neu gallwch wneud cais am gopi.
- Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod y manylion sydd yn eu cyfrif asiant Rhentu Doeth Cymru yn gyfredol yn www.rhentudoeth.llyw.cymru neu drwy roi gwybod i Rhentu Doeth Cymru ar 03000 133344 neu drwy'r post i Rhentu Doeth Cymru, Blwch SP 1106, Caerdydd CF11 1UA.
- Rhaid diweddarau'r manylion hyn ymhen 28 diwrnod o'r newid.
- Dyfarnwyd y drwydded hon ar yr amod bod y trwyddedai'n addas a phriodol. Os yw hyn yn newid a'r trwyddedai neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r drwydded yn cael ei gollfarnu o drosedd yn ystod cyfnod y drwydded rhaid i'r trwyddedai roi gwybod i Rhentu Doeth Cymru o fewn 14 diwrnod o gael collfarn. Nid yw troseddau gyrru'n cyfrif.

Ac yn ogystal, ar gyfer asiantau:

- Gweithredu ar ran landlordiaid eiddo rhentu yng Nghymru sydd wedi cofrestru a Rhentu Doeth Cymru yn unig. Mae gofyn i'r asiant roi gwybod i'w landlordiaid cleient am ofynion Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 ac os, wedi cael gwobod bod angen cofrestru, ydynt yn peidio â gwneud hynny o fewn 12 wythnos, bydd yn rhaid i'r asiant roi enw a manylion cyswllt y landlord i Rhentu Doeth Cymru er mwyn cynnal ymchwiliad.
- *Os yw asiant yn cael trwydded heb fod angen am yswiriant diogelu arian cleient nac yswiriant indemnio proffesiynol na/neu fod yn aelod o gynllun iawndal, cynhwysir yr amod canlynol:* Os ydych yn cymryd cyfrifoldeb gosod a rheoli eiddo yn y dyfodol (nad yw'n eiddo i aelodau eich teulu/lle rydych yn trin arian cleient a.y.b.) bydd yn rhaid i chi sicrhau bod gennych yswiriant diogelu arian cleient, yswiriant indemnio proffesiynol, aelodaeth ar gynllun iawndal gosod a rheoli annibynnol (a dderbynnir gan Rhentu Doeth Cymru) a gweithdrefn gwyno. Rhaid i chi roi manylion pob un i Rhentu Doeth Cymru ymhen 6 wythnos o ddod i osod a rheoli'r eiddo ychwanegol hwn.

Cymal 5: Os yw eich prif breswylfa'r tu allan i Dir Mawr Prydain, rhaid i chi naill ai benodi asiant trwyddedig Rhentu Doeth Cymru i'ch helpu i reoli eich eiddo rhent, neu fel arall gyflogi aelod o staff sy'n gweithio yn Nhir Mawr Prydain i'ch helpu i reoli eich eiddo. Bydd gennych 8 wythnos o ddyddiad dyfarnu eich trwydded i sicrhau bod gennych berson(au) o'r fath.

Diffinio Arian Cleient: Mae arian cleient yn cynnwys arian rhent, blaendaliadau neu gronfeydd eraill (boed hynny ar ffurf arian parod, siec, drafft neu drosglwyddiad electronig) y mae Asiant yn ei gadw neu'n ei dderbyn ar gyfer neu gan gleient ac nad yw'n daladwy'n syth ond yn daladwy ar alw i'r Asiant ar gyfer ei gyfrif ei hun.

Pwyntiau ychwanegol:

1. Ni fydd trwydded landlord ond yn caniatáu i berson weithredu yn gysylltiedig ag eiddo y mae'n landlord arno. Os yw'r person yn gosod neu'n rheoli eiddo rhent ar ran unrhyw un yng Nghymru nad oes ganddo fudd landlord ynddo, bydd angen trwydded asiant arno.
2. Ni ddyfernir trwydded fyth i 'drefniant ar y cyd' (h.y. dau neu ragor o unigolion)
3. Diffinnir aelodau'r teulu fel y gwna adran 258 Deddf Tai 2004 (<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/34/section/258>)